Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Dehena Davison AS
Gweinidog Ffyniant Bro
Llywodraeth y DU

X Rhagfyr 2022

Annwyl Dehena

**Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Trefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE**

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 29 Tachwedd sy'n rhoi eglurhad ar safbwynt Llywodraeth y DU na fu unrhyw newid i gyfanswm cwantwm Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU, mewn ymateb i honiad Llywodraeth Cymru bod gwerth cyffredinol y Gronfa wedi'i leihau o ganlyniad i Ddatganiad yr Hydref.

Fel y gwyddoch efallai, cynhaliodd y Pwyllgor ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Tachwedd ar ei adroddiad ar drefniadau ariannu ar ôl gadael yr UE. Yn ystod y ddadl, cydnabu Rebecca Evans AS, y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol eich llythyr, a nododd y bydd yn edrych ar y mater ymhellach.

Ein canfyddiad pennaf yn dilyn ein hymchwiliad oedd bod rhoi'r cronfeydd newydd hyn ar waith yn llwyddiannus yng Nghymru mewn perygl oherwydd diffyg ymgysylltiad rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Mae'r anghytundeb ynghylch y ffigurau y cyfeiriwyd atynt yn eich llythyr yn adlewyrchu'r math o anghydfod y credwn fod angen ei osgoi os yw'r cronfeydd hyn am lwyddo.

Mae'r Pwyllgor yn ailadrodd y gri bod angen arferion cydweithio adeiladol rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, a phwysigrwydd tryloywder wrth gyfrifo cyllid.

Hoffwn hefyd ddiolch i chi am eich llythyr dyddiedig 5 Rhagfyr ynghylch cymeradwyo Cynlluniau Buddsoddi Cymru ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gwerthfawrogwn eich bod yn rhoi gwybod i ni am ddatblygiadau, gan ein bod yn bwriadu cadw golwg ar y sefyllfa.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.